Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Ein cynllun cyhoeddi

Cynnwys

Adrannau

1. Rhagair 2

2. Deddf Rhyddid i Wybodaeth 2000 3

3. Dod o hyd i wybodaeth a gyhoeddwn 6

4. Prisiau 7

5. Dosbarthiadau gwybodaeth 8

6. Cysylltiadau 32

Atodiad 1 – Swyddfeydd WaterVoice 35

Atodiad 2 – Ein prisiau 39

Atodiad 3 – Rhestr lawn o ddosbarthiadau o wybodaeth 41

Adran 1 - Rhagair

Pwy ydym ni?

1. Y Swyddfa Gwasanaethau Dŵr (Ofwat). Y Cyfarwyddwr Cyffredinol (y Cyfarwyddwr) yw'r rheoleiddydd economaidd ar gyfer y cwmnïau dŵr a charthffosiaeth yn Lloegr a Chymru. Ei ddyletwydd pennaf yw sicrhau fod swyddogaethau'r cwmnïau yn cael eu cyflawni a'u bod yn gallu eu hariannu. Y mae arno ddyletswydd i ddiogelu cwsmeriaid a dyletswydd i hwyluso cystadleuaeth effeithiol.
2. Cynrychiolir buddiannau cwsmeriaid gan WaterVoice. Y mae WaterVoice yn gweithredu drwy naw pwyllgor yn Lloegr a phwyllgor dros Gymru , a sefydlir ac a gynhelir gan y Cyfarwyddwr. Y mae deg Cadeirydd Pwyllgor WaterVoice yn ffurfio Cyngor WaterVoice, sydd yn ymdrin â phynciau ar wastad cenedlaethol ac Ewropeaidd. Cynhwysir manylion am y deg pwyllgor WaterVoice yn Atodiad 1.

Beth mae Ofwat yn ei wneud?

3. Fel y rheoleiddydd economaidd yr ydym yn:
   - cyfyngu ar yr hyn gall y cwmnïau godi ar gwsmeriaid;
   - sicrhau fod y cwmnïau yn alluog i gyflawni eu cyfrifoldebau yn unol â'r Deddf Diwydiant Dŵr 1991;
   - diogelu safon y gwasanaeth i gwsmeriaid;
   - annog cwmnïau i fod yn fwy effeithiol;
   - datrys cwynion oddi wrth gwsmeriaid; a
   - gweithio i gymell cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol.

4. Yr ydym hefyd yn cymharu gweithgareddau'r cwmnïau oll. Y mae hyn yn herio perfformwyr gwael i ymgyrraedd tuag at safonau'r goreuon a thrwy hyrwyddo effethiolrwydd yn gymorth i ffrwyno prisiau.

5. Er mwyn i ni allu cyflawni ein rhan yn effeithiol yr ydym yn dibynnu ar wybodaeth a dderbyniwn oddi wrth y cwmnïau. Yr ydym yn archwilio ac yn dadansoddi'r fath wybodaeth ac y mae hyn yn ein cynorthwyo i wneud penderfyniadau polisi. Y

mae'r mathau o wybodaeth a gasglwn yn cynnwys, ymhlith pethau eraill:

- gwybodaeth monitro blynyddol yn adroddiad mis Mehefin ar wariant a perfformiad y cwmnïau;
- prif ddatganiadau a chynlluniau prisiau'r cwmnïau sydd yn disgrifio sut y maent yn enrhifo biliau cwsmeriaid; ac
- yn ystod yr adolygiadau pum mlynyddol o argymelliadau cyfyngiadau prisiau sydd yn gosod eu anghenion incwm a buddsoddi ar gyfer y dyfodol.

6. Nid ydyn yn rheoleiddio'r diwydiant ar ein liwt ein hunain. Yr ydym yn dibynnu ar yr Arolygaeth Dŵr Yfed (DWI) ac Asiantaeth yr Amgylchedd (EA) i ddarparu gwybodaeth i ni ynghylch ansawdd y dŵr a gyflenwa'r cwmnïau a'u perfformiad amgylcheddol yn eu tro.

7. Yr ydym hefyd yn cynnal ymchwil marchnata i'n cynorthwyo i ddeall blaenoriaethau a barn cwsmeriaid.

At bwy yr anelir y cyhoeddiad hwn?

8. Y mae'r cynllun hwn yn rhoddi gwybodaeth i gwsmeriaid dŵr, grwpiau â diddordeb arbennig a chwmnïau dŵr ynghylch y wybodaeth a gyhoeddir gennym, a sut i ddod o hyd iddo.

Adran 2 - Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Beth yw cynllun cyhoeddi?

9. Y mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn gosod gofyniad arnom i gynhyrchu cynllun cyhoeddi. Y mae'n rhaid i bob awdurdod cyhoeddus gael cynllun cyhoeddi. Y mae ein cynllun cyhoeddi yn cynnwys gwaith Ofwat, Cyngor WaterVoice a'r Pwyllgorau WaterVoice.

10. Cynhyrchwyd ein cynllun yn unol â chanllawiau'r Comisiynydd Gwybodaeth. Y mae yn nodi'r mathau o wybodaeth yr ydym ni - Ofwat a WaterVoice - yn ei gyhoeddi (dosbarthiadau o

wybodaeth), sut yr ydym yn gwneud y wybodaeth yn gaffaeladwy i chi a lle y byddwn yn codi tâl am wybodaeth.

11. Amcanwn at fod yn agored ac yn dryloyw ynghylch ein gwaith. Wrth lunio'n cynllun cyhoeddi yr ydym wedi edrych ar y wybodaeth a gyhoeddwn eisoes ac wedi ystyried a allwn ei ehangu. Ers ein sefydlu ym 1989 ein amcan fu cyhoeddi gymaint o wybodaeth ag a allwn. Y mae gofyn i ni gloriannu'r dymuniad hwn â'n cyfrifoldeb i barchu cyfrinachedd masnachol ac i osgoi ansicrwydd rheolyddol a allai ddylanwadu ar brisiau cyfranddaliadau cwmnïau a'u gallu i fenthyca o'r masnachoedd ariannol. Yr ydym wedi pendroni ynghylch y wybodaeth y gofynnwyd amdano gan y cyhoedd yn y gorffennol, ac a allwn gynnwys y wybodaeth hwn yn ein cynllun ai peidio.

Sut y mae'n rhaid i ni weithredu Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000?

12. Rhaid gweithredu Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn llwyr erbyn 30 Tachwedd 2005. Y mae nifer o gamau y mae'n rhaid i ni eu cymryd er mwyn gweithredu'r Ddeddf.

- Tachwedd 2002 - Ein cynllun cyhoeddi, y mae gofyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth fod wedi cytuno arno, yn ei le. Y mae hwn yn nodi yr holl ddosbarthiadau o wybodaeth y cyhoeddwn ac y gallwn ei wneud yn gaffaeladwy i chi. Y mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth hwn ar ein gwefan (www.ofwat.gov.uk). Gall ein llyfrgell ddarparu unrhyw wybodaeth cyhoeddedig nad yw ar gael ar y wefan ar eich cyfer.

- Ionawr 2005 - Erbyn y dyddiad hwn, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, bydd gennych hawl mynediad i wybodaeth a gedwir gennym. Byddwch yn gallu gofyn i ni ddarparu i chi unrhyw wybodaeth a gedwir gennym , onid yw wedi ei eithrio o dan y Ddeddf. Ceisiwn gyhoeddi cymaint o wybodaeth ag a allwn.

- Yn ogystal â gofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, y mae gofyn i ni gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.

- Ar hyn o bryd rheolir mynediad i wybodaeth yn ein meddiant gan y Côd Ymarfer ar Fynediad i wybodaeth Llywodraethol, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol a Deddf Diogelu Data 1998.

Ple gallaf gael gwybodaeth pellach?

Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

13. Y mae gwybodaeth pellach ynghylch y Ddeddf ar gael ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth (www.dataprotection.gov.uk).

Côd Ymarfer ar Fynediad i Wybodaeth Llywodraethol

14. Y mae gwybodaeth pellach ar gael ar wefan yr Arglwydd Ganghellor (www.lcd.gov.uk/foi/foidpunit.htm).

15. Y mae ein canllaw mewnol ar weithredu't Côd Ymarfer ar gael o'n llyfrgell.

A yw'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cytuno â'r cynllun cyhoeddi?

16. Ydi. Yr ydym wrth ein bodd fod y Comisiynydd Gwybodaeth wedi cymeradwyo'r cynllun hwn.
    Cymeradwyodd y cynllun am gyfnod o pedair blynedd. Adolygir ein cynllun felly gan y Comisiynydd Gwybodaeth yn 2006. Fodd bynnag, bwriadwn edrych ar ein cynllun bob mis Tachwedd i wirio ei fod yn gyfoes ac a oes unrhyw wybodaeth ychwanegol y gallwn ei ychwanegu at y cynllun.

Adran 3 - Dod o hyd i wybodaeth a gyhoeddwn

Sut ydym yn gwneud gwybodaeth yn gaffaeladwy?

17. Y mae ein llyfrgell ar agor o 9.30am hyd 4.30pm Ddydd Llun hyd Ddydd Gwener. Gall ein staff eich cynorthwyo gydag ymholiadau ar y ffôn, yn ysgrifenedig acar yr e-bost. Gallwch hefyd ymweld â'n llyfrgell. Y mae ein llyfrgell yn fychan, ac felly dylasech wneud trefniant ymlaen llaw os carech wneud ymweliad. Yr ydym yn croesawu ymwelwyr, ond nid oes gennym le ond i ychydig o ymwelwyr ar y tro. Gallwch roi galwad ffôn i ni i wneud apwyntiad.
18. Y mae'r rhan fwyaf o bobl sydd yn dymuno cael gwybodaeth oddi wrthym yn defnyddio ein gwefan. Cyfeiriad gwefan Ofwat yw www.ofwat.gov.uk; gellir dod o hyd i wybodaeth WaterVoice ar www.watervoice.org.uk. Gallwch ddod o hyd i'r rhan fwyaf o'r wybodaeth a ddisgrifir yn y cynllun cyhoeddi hwn ar ein gwefan. Os na allwch ddod o hyd i rywbeth y tybiwch ein bod yn ei gyhoeddi, byddwch gystal â chysylltu â'n llyfrgell. Bydd ein staff llyfrgell yn barod iawn i'ch cynorthwyo gyda'ch ymholiad.
19. Argreffir ein cynllun cyhoeddi mewn print bras ar gyfer pobl sydd â diffyg gweledol. Gallwn hefyd ei ddarparu mewn Braille ac ar dâp sain. Cyhoeddwn y cynllun yn Saesneg a Chymraeg a byddwn yn ymateb yn gadarnhaol i unrhyw geisiadau i ni ddarparu'r cynllun mewn ieithoedd eraill.
    Ein manylion cyswllt yw:

    Library and Information Services
    Office of Water Services
    Centre City Tower
    7 Hill Street
    Birmingham
    B5 4UA

Ffôn:	0121 625 1373
Ffacs:	0121 625 1400
Gwefan:	www.ofwat.gov.uk
E-bost:	enquiries@ofwat.gsi.gov.uk

Adran 4 - Prisiau

A oes rhaid i mi dalu am wybodaeth?

20. Y mae gwybodaeth a gyhoeddwn ar gael yn rhad ac am ddim ar ein gwefan. Y mae'r mwyafrif o'n cyhoeddiadau yn rhad ac am ddim o'n llyfrgell, ond gellir codi tâl am gludiant a phacio ar gyfer archebion mawrion. Gellir edrych ar yr holl wybodaeth a gyhoeddwn yn ein llyfrgell.

21. Yr ydym yn codi tâl am ambell wybodaeth, fel arfer gwybodaeth a baratowyd gan gorff arall neu gwybodaeth a gyflenwir i ni gan y cwmnïau. Codwn dâl am adroddiadau a gomisiynwyd oddi wrth ymgynghorwyr; llawlyfrau technegol; detholion o Gofestr y Cyfarwyddwyr; detholion o gyfrifon rheoleiddio'r cwmnïau a detholion o lyfrau a thaflenni ar gadw ar silffoedd ein llyfrgell.
22. Ar gyfer cyhoeddiadau â phris arnynt, gofynwn am daliad ymlaen llaw. Derbyniwn daliadau drwy gerdyn credyd/debyd Visa, Delta, Electron, Mastercard, Eurocard, JCB, Switch, Solo neu siec yn daladwy i Swyddfa Gwasanaethau Dŵr mewn punnoedd sterling ac a godir ar fanc o'r DU.

23. Cynhwysir restr o'n prisiau yn atodiad 2 ar ddiwedd y cynllun hwn. Diweddarir hwn os gwnawn unrhyw adolygiadau iddynt. I'ch helpu i ganfod unrhyw wybodaeth lle byddwn yn codi tâl, yr ydym wedi rhoi arwydd **£** wrth ochr y dosbarthiadau o wybodaeth sydd yn cynnwys peth defnydd y codir tâl amdano.

Adran 5 - Dosbarthiadau o wybodaeth

Pa fathau o wybodaeth yr ydym yn eu cadw?

24. Wrth lunio ein cynllun bu'n rhaid i ni feddwl am y mathau o wybodaeth yr ydym yn ei gadw a'r categorïau y perthyna iddynt (dosbarthiadau o wybodaeth). Disgrifir y categorïau hyn isod.

25. Yr ydym hefyd yn cynhyrchu rhestr cyhoeddiadau. Diweddarir hwn yn rheolaidd a gellir dod o hyd iddo ar ein gwefan, neu drwy ofyn i'n llyfrgell.

26. Casglwn lawer o wybodaeth oddi wrth y cwmnïau dŵr a charthffosaeth y'i defnyddiwn er mwyn cymharu eu perfformiad. Pwyswn yn drwm ar y wybodaeth hon er mwyn cynhyrchu'r adroddiadau a gyhoeddwn. Cynhwysir yr holl wybodaeth nad yw'n gyfrinachol a ddarperir i ni gan y cwmnïau yn ein cynllun cyhoeddi.

27. Yr ydym wedi ceisio gwahanu rhwng pob gwahanol math o wybodaeth yn ein cynllun.
28. Disgrifir y gwahanol ddosbarthiadau o wybodaeth a gynhyrchwn isod. Cynhwysir rhestr gyflawn o'r dosbarthiadau o wybodaeth yn atodiad 3 o'r cynllun cyhoeddi hwn.

Rheoleiddio'r Cwmnïau

5.1 Ein dyletswyddau

Disgrifiad - Ni yw rheoleiddydd y diwydiant dŵr a charthffosiaeth yn Lloegr a Chymru. Gosodir ein dylestwyddau yn Adran 2 o'r Deddf Diwydiant Dŵr 1991.

Caffaeladwyedd - Gallwch ddod o hyd i gopi o'r ddeddfwriaeth ynghylch y diwydiant dŵr ar wefan Llyfrfa Ei Mawrhydi www.legislation.hmso.gov.uk.

5.2 Hysbysiadau i'r wasg

Disgrifiad – Pob hysbysiad i'r wasg a bwletin gwybodaeth a gyhoeddir gan Ofwat.

Caffaeladwyedd – llyfrgell a gwefan Ofwat

5.3 Nodiadau gwybodaeth

Disgrifiad - Cyfres o nodiadau byrion sydd yn disgrifio ein gwaith,dyletswyddau a phynciau sydd o ddiddordeb i gwsmeriaid.

Caffaeladwyedd - Llyfrgell a gwefan Ofwat.

5.4 Adroddiadau perfformiad blynyddol

Disgrifiad - Cyfres o bump adroddiad yr ydym yn eu cynhyrchu bob blwyddyn sydd yn disgrifio perfformiad y diwydiant. Y mae hyn yn crynhoi gwybodaeth a gynhwysir yn adroddiadau mis Mehefin y cwmnïau, cyfrifon rheoleiddio, prif ddatganiadau a chynlluniau taliadau.
Caffaeladwyedd – ‘Adroddiad ar strwythur codiadau a thaliadau ’; ‘Gwastadau gwasanaeth ar gyfer y diwydiant dŵr yn Lloegr a Chymru'; ‘Perfformiad ariannol a gwariant y cwmnïau dŵr yn Lloegr a Chymru'; 'Sicrwydd cyflenwad, gollyngiad a'r defnydd effeithlon o ddŵr‘; ‘Costau uned ac effeithlonrwydd cymharol y gwasanaeth dŵr a charthffosiaeth'. Llyfrgell a gwefan Ofwat.

5.5 Llythyron RG a CR

Disgrifiad – Cyfres o lythyron yw llythyron y Rheolydd Gyfarwyddwr (RG) a'r Cyfarwyddwr Rheoleiddio (CR) yr anfonwn at y cwmniau yn gosod ein polisi ar bynciau penodol. Dyma un o'r prif arfau a ddefnyddiwn i hysbysu'r diwydiant am ein datblygiadau polisi.

Caffaeladwyedd - Llyfrgell a gwefan Ofwat

5.6 Cofrestr y Cyfarwyddwr
£

Disgrifiad - O dan Adran 195 o'r Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991 y mae gofyn i'r Cyfarwyddwr gofnodi ar ei gofrestr delerau:

- pob trwydded cwmni dŵr (a adnabyddir fel ' Offeryn Apwyntiad'), pob terfyniad neu drosglwyddiad o drwydded, unrhyw newid yn yr ardal a wasanaethir gan gwmni dŵr ac unrhyw newid yn amodau trwydded.
- pob cyfarwyddid, caniatad neu benderfyniad a roddir neu a wneir o dan drwydded cwmni dŵr gan Yr Ysgrifennydd Gwladol, Y Comisiwn Cystadleuaeth neu'r Cyfarwyddwr;
- pob gorchymyn gorfodaeth terfynol neu amodol a wneir neu a gadarnheir o dan adran 18 o'r Ddeddf ac unrhyw ddirymiad o'r fath orchymyn;
- pob addewid a roddir gan gwmni dŵr ac a dderbynnir gan Yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r Cyfarwyddwr yn hytrach na gwneud gorchymyn gorfodaeth terfynol, neu gadarnhau un amodol, ac unrhyw rybudd a anfonir gan y naill a'r llall ohonynt at gwmni dŵr yn datgan nad ydynt bellach o'r farn fod gofyn iddynt wneud gorchymyn gorfodol terfynol neu gadarnhau un amodol;
- pob gorchymyn gweinyddol arbennig a phob cyflawniad o'r fath orchymyn; ac
- unrhyw ganllaw a roddir i'r Cyfarwyddwr gan Yr Ysgrifennydd Gwladol ynghylch cymeradwyo cynlluniau taliadau cwmnïau dŵr.

Y mae Cofrestr y Cyfarwyddwr yn eithrio unrhyw ddarpariaeth y dywedodd Yr Ysgrifennydd Gwladol wrth y Cyfarwydwr i beidio a'i gynnwys am y byddai yn groes i les y cyhoedd i wneud hynny.

Caffaeladwyedd - Cedwir y wybodaeth sydd yn 'Cofrestr y Cyfarwyddwr' yn ein llyfrgell.

5.7 Effeithiolrwydd

Disgrifiad - Pob blwyddyn, byddwn yn cynhyrchu adroddiad ar wastadau effeithiolrwydd cwmnïau ar gyfer gwariant cyfalafol a gweithredu, a sut y maent yn cymharu â chwmnïau eraill ac yn ôl ein rhagdybiaethau ni wrth i ni osod terfynau prisiau'r cwmnïau. O dan y cynllun hwn, yr ydym hefyd yn darparu mynediad i wybodaeth a gyhoeddwyd gennym yn egluro ein hymarweddiad tuag at yr adran hon o'n gwaith a'r datblygiadau sydd yn ein meddwl.

Caffaeladwyedd - Fe'i cynhwysir yn 'Adroddiad ar gostau unedol gwasanaeth dŵr a charthffosiaeth ac effeithiolrwydd cymharol', ac mewn llythyron i Reolwyr Cyfarwyddwyr a Chyfarwyddwyr Rheoleiddio yn disgrifio ein polisi a'n ymarweddiad.

5.8 Meincnodi £

Disgrifiad - Er mwyn gallu deall sut mae perfformiad cwmnïau yn Lloegr a Chymru yn cymharu â'i gilydd ac â pherfformiad mewn rhannau eraill o'r byd, yr ydym yn casglu ac yn cymharu gwybodaeth am berfformiad cwmnïau.

Caffaeladwyedd - Cyhoeddir yn ' Adroddiad cymhariaeth rhyngwladol o wasanaethau dŵr a charthffosiaeth 2001-2002' pob blwyddyn ac 'Adroddiad ar gostau unedol ac effeithiolrwydd cymharol y gwasanaeth dŵr a charthffosiaeth'. Cynhwysir gwybodaeth a gasglwn ynghylch cwmnïau yn Lloegr a Chymru yn eu adroddiadau mis Mehefin ac y mae ar gael ar CD-ROM.

5.9 Gollyngiadau

Disgrifiad - Cyhoeddwn fanylion gwastad gollyngiadau cwmnïau bob blwyddyn. Yr ydym hefyd yn gosod nodau i rai cwmnïau ac yn mesur eu perfformiad yn erbyn y nodau hynny. Y mae rhai cwmnïau yn gosod eu nodau eu hunain. Eglurwn sut byddwn yn

mesur y ffigurau hyn a'r camau a gymerwn yn erbyn y cwmnïau sydd yn methu a chyrraedd ein nodau.

Caffaeladwyedd - Cyhoeddir perfformiadau gollyngiadau'r cwmnïau mewn datganiad i'r wasg pob mis Gorffennaf, ac fe'i ddilynir gan ragor o fanylion 'Adroddiad ar sicrwydd cyflenwad, gollyngiadau a'r defnydd effeithlon o ddŵr' yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

5.10 Dŵr yfed

Disgrifiad - Y mae'r arolygaeth Dŵr Yfed yn gyfrifol am ddiogelu ansawdd dŵr yfed y cwmnïau. Gellir dod o hyd i wybodaeth am yr Arolygaeth ar ei wefan www.dwi.gov.uk. Fodd bynnag, yr ydym yn cyhoeddi peth gwybodaeth cyfyngedig ar sut y mae canlyniadau'r Arolygaeth yn effeithio ar berfformiad cwmnïau.
Caffaeladwyedd - Y 'Perfformiad ariannola gwariant y cwmnïau dŵr yn Lloegr a Chymru' a 'Gwastadau gwasanaeth ar gyfer y diwydiant dŵr yn Lloegr a Chymru', a gyhoeddwn fel y'i gilydd bob haf.

5.11 Yr Amgylchedd

Disgrifiad - Asiantaeth yr Amgylchedd sydd yn gyfrifol am reoleiddio'r amgylchedd. Gellir dod o hyd i wybodaeth am yr Asiantaeth ar ei wefan www.environment-agency.gov.uk. Cyhoeddwn beth gwybodaeth cyfyngedig ar sut y mae canlyniadau Asiantaeth yr Amgylchedd yn effeithio ar berfformiad cwmnïau.

Caffaeladwyedd - Fe'i gynhwysir yn 'Adroddiad ar berfformiad ariannol a gwariant y cwmnïau dŵr yn :;oegr a Chymru' a 'Gwastadau gwasanaeth ar gyfer y diwydiant dŵr yn Lloegr a Chymru' , a gyhoeddir gennym fel y'i gilydd bob haf.

5.12 Cynnal asedau'r cwmnïau
£

Disgrifiad - Caniateir arian yn y cyfyngiadau prisiau i gwmnïau iddynt gynnal eu asedau (cynnal cyfalafol) fel bod yr asedau yn cyflenwi gwasanaethau i gwsmeriaid a'r amgylchedd ar hyn o bryd ac i'r dyfodol. Cyhoeddwn fanylion am wastadau gwariant cynnal cyfalafol y cwmnïau. Y mae'r cwmnïau yn darparu'r wybodaeth y seilir yr adroddiad hwn arno i ni, ac fe'i gynhwysir yn eu adroddiadau mis Mehefin. Y mae ein cynllun hefyd yn cynnwys gwybodaeth cyhoeddedig ar benderfynnu ar wastadau gwariant cynnal cyfalafol y caniatawn yn y cyfyngiadau prisiau a'n disgwyliadau o'r camau y dylasai'r cwmnïau eu cymryd wrth fesur faint o wariant cynnal cyfalafol y bydd ei angen arnynt ei wario i'r dyfodol.

Caffaeladwyedd - Fe'i cyhoeddir yn ein adroddiadau ' Perfformiad ariannol a gwariant y cwmnïau dŵr yn Lloegr a Chymru' a 'Gwastadau gwasanaeth ar gyfer y diwydiant dŵr yn Lloegr a Chymru' ac mewn llythyron i RGau a CRau yn gosod ein polisi a'n ymarweddiad, ac yn CD-ROM adroddiad mis Mehefin.

5.13 Costau sylfaen

Disgrifiad - Y mae cwmnïau yn cyflenwi i ni, ar sail cyfrinachedd masnachol, y costau y byddent yn disgwyl eu talu am engreifftiau o gynlluniau cyfalafol, er enghraifft, costau gosod hyd penodol o bibell o drawsfesur penodol.

Caffaeladwyedd - Yr ydym yn dadansoddi'r wybodaeth a ddarperir gan y cwmnïau ac yn cyhoeddi'r canlyniadau yn ddi-enw yn 'Costau unedol gweithiau cyfalafol yn y diwydiant dŵr'.

5.14 Costau ymylol tymor hir
£

Disgrifiad - Cyhoeddwn fanylion am gostau ymylol tymor hir y cwmnïau a'n ymarweddiad tuag at eu sefydlu a'u defnyddio.

Caffaeladwyedd -Llythyron RG a CR, cyflwyniadau'r cwmnïau a 'Adroddiad ar strwythur taliadau a phrisiau' a gyhoeddir bob blwyddyn.

5.15 Rheolaeth galw a chyflenwad
£

Disgrifiad - Cyhoeddwn fanylion ar ein polisi ar gyfer ymdrin â phynciau rheolaeth galw a chyflenwi.

Caffaeladwyedd -Llythyron RG a CR, cyflwyniadau cwmnïau.

5.16 Defnydd effeithiol o ddŵr

Disgrifiad - Cyhoeddwn fanylion ynghylch sut y mae'r cwmnïau yn cyfarfod â'u dyletswydd i hyrwyddo'r defnydd effeithiol o ddŵr.

Caffaeladwyedd– Adroddiad 'S icrwydd cyflenwad, gollyngiadau a'r defnydd effeithiol o ddŵr', llythyron RG a CR.

Gwybodaeth ariannol

5.17 Model ariannol
£

Disgrifiad - Y mae'r model ariannol Aquarius 3 a ddefnyddiwn i enrhifo cyfyngiadau prisiau'r cwmnïau ar gael. Gall fod y bydd cyhoeddiadau pellach o'r model yn ystod 2003 fel y byddwn yn cadarnhau ein ymarweddiad tuag at yr adolygiad prisiau nesaf. Y mae llyfr rheolau Aquarius 3 ar gael.

Caffaeladwyedd - Y mae'r rheolau sydd yn sail i'r model ar gael o'n llyfrgell. Y mae'r Model ar gael oddi wrth Cap Gemini Ernst a Young.

5.18 Strwythurau corfforiaethol cwmnïau
£

Disgrifiad -Cyhoeddwn ein papurau ymgynghori lle bo cwmnïau yn cynnig ail-strwythuro neu lle bo cwmnïau yn cyfuno neu yn cael eu mabwysiadu. Lle bo cyfuniadau yn cael eu cyfeirio fel mater o drefn i'r Comisiwn Cystadleuaeth (CC), y mae Llyfrfa Ei Mawrhydi yn cyhoeddi'r adroddiad.

Caffaeladwyedd - Papurau ymgynghori, Adroddiadau'r CC, cynigion amrywiadau trwydded.

5.19 Cyfrifon Rheoleiddiol
£

Disgrifiad - Cyhoeddwn ein canllawiau i gwmnïau ar sut y dylasant gynhyrchu eu cyfrifon rheoleiddiol. Cyhoeddwn ein dadansoddiad o gyfrifon rheoleiddiol y cwmnïau ac y mae copïau o gyfrifon rheoleiddiol y cwmnïau ar gael o'n llyfrgell.

Caffaeladwyedd - Canllaw Cyfrifon Rheoleiddiol (RAGS 1-5), y mae ' Adroddiad ar berfformiad ariannol a gwariant y cwmnïau dŵr yn Lloegr a Chymru' yn rhoi gwybodaeth ar wastad y diwydiant. Y mae ein adroddiad ar berfformiad cwmni ar sail bob cwmni hefyd ar gael. Cedwir cyfrifon rheoleiddiol cwmnïau yn ein llyfrgell.

5.20 Gwarediadau tir

Disgrifiad - Cyhoeddwn niferoedd a derbyniadau o warediadau tir y cwmnïau yn ôl rhanbarthau WaterVoice.

Caffaeladwyedd - ‘Adroddiad perfformiad ariannol a gwariant y cwmnïau dŵr yn Lloegr a Chymru'.

5.21 Gwariant gweithredu a chyfalafol £

Disgrifiad - Gwybodaeth cyhoeddedig ar wariant gweithredu a chyfalafol y cwmnïau.

Caffaeladwyedd - ‘Adroddiad ar berfformiad ariannol a gwariant y cwmnïau dŵr yn Lloegr a Chymru' a chyflwyniadau'r cwmnïau.

5.22 Prisio trosglwyddiadau

Disgrifiad - Cyhoeddwn fanylion o fasnachu cwmnïau gyda'u cysylltiadau, yn ogystal â'n canllawiau i gwmnïau ar sut y dylid trafod trafodion gyda chysylltiadau - (Canllaw Cyfrifo Rheoleiddiol 5).
Caffaeladwyedd - ‘Adroddiad ar berfformiad ariannol a gwariant y cwmnïau dŵr yn Lloegr a Chymru' a Canllaw Cyfrifo Rheoleiddiol 5 'Prisio trosglwyddiadau yn y Diwydiant Dŵr'.

5.23 Datganiadau i'r Ddinas

Disgrifiad - Yr ydym yn cynnwys testun ein Datganiadau ar ein gwefan. Yr ydym yn briffio'r Ddinas gan gynnwys buddsoddwyr a dadansoddwyr ynghylch ein gweithgareddau.

Caffaeladwyedd - Datganiadau ar y wefan.

5.24 Gwerthoedd cyfalafol Rheoleiddiol (GCRau)

Disgrifiad - Cyhoeddwn ein rhagolygon o werthoedd cyfalafol rheoleiddiol y cwmnïau , hynny yw y gwerth ariannol y rhoddwn ar asedau'r cwmniau y gallant gynhyrchu cyfradd o elw arnynt. Cyhoeddwyd hyn am y tro cyntaf yn 2002. Yr ydym hefyd yn cyhoeddi manylion ar sut yr ydym yn enrhifo GCRau.

Caffaeladwyedd - Llythyron RG a CR.

5.25 Cost cyfalaf

Disgrifiad - Byddwn yn cyhoeddi manylion y gwaith a gyflawnwyd gennym gyda'r rheolyddion eraill ar gost cyfalaf y cwmnïau.

Caffaeladwyedd - Pan y'i cyhoeddir byddwn yn ei roddi ar ein gwefan ac yn ein llyfrgell.

Gosod prisiau

5.26 Ymchwil cwsmeriaid

Disgrifiad - Byddwn yn cyhoeddi canlyniad yr ymchwil cwsmeriaid a gyflawnwyd gennym er mwyn rhoi gwybodaeth i ni wrth wneud ein penderfyniadau gosod prisiau. Byddwn yn cyhoeddi unrhyw ganllawiau a gynhyrchir gennym ar gyfer y cwmnïau ar sut y dylasant gynnal eu hymchwil cwsmeriaid.

Caffaeladwyedd - Llyfrgell a gwefan Ofwat.

5.27 Polisi a proses adolygiad cyfnodol

Disgrifiad - Bwriadwn gyhoeddi ein agwedd tuag at gynnal yr adolygiad prisiau, yn ogystal â'n ymgynghoriad ar bynciau sylfaenol ein polisi adolygu prisiau.

Caffaeladwyedd – ‘Rhaglen y dyfodol Ofwat 2002-03 hyd 2004-05', llythyron CR, cyhoeddiadau ar adolygiad cyfnodol, ymatebion ymgynghoriad.

5.28 Penderfyniadau £

Disgrifiad - Bwriadwn gyhoeddi canlyniadau ein penderfyniadau drafft a therfynol o gyfyngiadau prisiau ar gyfer yr adolygiad cyfnodol 2004. Y mae penderfyniadau drafft a therfynol yr adolygiad prisiau 1999 ar gael ar ein gwefan ac o'n llyfrgell. Y mae

Llyfrfa Ei Mawrhydi yn cyhoeddi penderfyniadau a wneir gan y CC.

Caffaeladwyedd - Ar gyfer adolygiad 1999, ‘Penderfyniadau terfynol - prisiau dŵr a charthffosiaeth y dyfodol 2000-05', 'Penderfyniadau drafft - prisiau dŵr a charthffosiaeth y dyfodol 2000-05' a 'Y rhagolygon am brisiau'. Gellir dod o hyd i benderfyniadau na wneir gan y Comisiwn Cystadleuaeth yn ein llyfrgell ac ar ein gwefan.

5.29 Cyflwyniadau cwmnïau
£

Disgrifiad - Bwriadwn roddi yr holl wybodaeth nad yw'n gyfrinachol a ddarparwyd i ni gan y cwmnïu ar gyfer yr adolygiad prisiau yn ein llyfrgell. Byddwn hefyd yn lleoli yr adroddiadau nad ydynt yn gyfrinachol ac adroddiadau'r archwilwyr ar gyflwyniadau'r cwmnïau yn y llyfrgell. Cyhoeddir cynlluniau monitro'r cwmnïau yn ogystal.

Caffaeladwyedd - Cyflwyniadau cwmnïau, cynlluniau monitro.

5.30 Penderfyniadau cyfamser

Disgrifiad - Cyhoeddwn ein penderfyniadau drafft a therfynol o gyfyngiadau prisiau lle y penderfynnir arnynt rhwng adolygiadau prisiau, yn ogystal â'r polisi a'r amserlen y byddwn yn eu dilyn. Yn 2002 cyhoeddasom y model taenlen y defnyddiwn i enrhifo penderfyniadau dros dro am y tro cyntaf.

Caffaeladwyedd - Penderfyniadau, llythyron RG aCR, hysbysiadau yn y wasg, papurau ymgynghori.

5.31 Cyfeirnodau y Comisiwn Cystadleuaeth
£

Disgrifiad - Adroddiadau'r Comisiwn Cystadleuaeth lle y gofynnir i'r Comisiwn i ail-benderfynu cyfyngiadau prisiau i gwmnïau.

Caffaeladwyedd - Llyfrfa Ei Mawrhydi.

Monitro perfformiad cwmnïau

5.32 Adroddwyr
£

Disgrifiad - Cyhoeddwn ein canllawiau i adroddwyr a'r protocol sydd yn gosod allan swyddogaeth yr adroddwyr a'r trefniadau cytundebol, a gytunwyd gyda'r cwmnïau. Y mae'r adroddwyr yn bobl brofesiynnol annibynnol sydd yn ardystio'r wybodaeth a ddarperir i ni gan y cwmnïau. Yr ydym hefyd yn cyhoeddi y pynciau trafod a ddaw allan o weithdy ar y cyd rhwng yr adroddwyr a'r archwilwyr a gynhelir ddwywaith y flwyddyn. Y mae'r rhannau nad ydynt yn gyfrinachol o adroddiadau'r adroddwyr ar ddatganiadau mis Mehefin y cwmnïau a'u cyflwyniadau am adolygu prisiau ar gael o'n llyfrgell.

Caffaeladwyedd - Protocol adroddwyr, llythyron RG a CD, cyflwyniadau adroddwyr.

5.33 Archwilwyr
£

Disgrifiad - Pynciau trafod o weithdai'r adroddwyr ac archwilwyr a gynhelir ddwywaith y flwyddyn.
Ein canllaw i archwilwyr. Adroddiadau'r archwilwyr nad ydynt yn gyfrinachol.

Caffaeladwyedd - Llythyron RG a CD, adroddiadau'r archwilwyr.

5.34 Ein gofynion adroddiadau
£

Disgrifiad - Cyhoeddwn ein canllawiau ar yr adroddiadau mis Mehefin, y prif ddatganiad, ffactorau esboniadol y gwasanaeth carthffosiaeth a chyflwyniadau eraill gan gynnwys cynlluniau

busnes. Yr ydym hefyd yn ymgynghori ar y wybodaeth y mae ei angen arnom oddi wrth y cwmnïau.
Caffaeladwyedd - Llythyron CD, gofynion adrodd atebion mis Mehefin, gofynion gwybodaeth ffactorau esboniadol y gwasanaeth carthffosiaeth, gofynion adroddiadau ar gynlluniau busnes.

Cystadleuaeth

5.35 Polisi cystadleuaeth

Disgrifiad - Adroddiad ar gyflwr presennol cystadleuaeth yn y diwydiant. Ein ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus y Llywodraeth ar gystadleuaeth.

Caffaeladwyedd - Llythyron RG a CD, nodiadau gwybodaeth, 'cyflwr presennol y gystadleuaeth' a'n ymatebion i ymgynghoriad y llywodraeth ar gystadleuaeth.

5.36 Cyflenwadau swmp

Disgrifiad - Cyhoeddwn ein agweddau at benderfynnu ar gytundebau, a manylion y cytundebau a wnawn.

Caffaeladwyedd - Llythyron RG a CD.

5.37 Apwyntiadau mewnosod

Disgrifiad - Bwriadwn gynnwys manylion nad ydynt yn gyfrinachol o apwyntiadau mewnosod cyfredol, ynghyd â gwybodaeth am geisiadau cyflawn yr ydym yn eu archwilio ar hyn o bryd.

Caffaeladwyedd - Adroddiadau ar geisiadau am apwyntiadau mewnosod; apwyntiadau mewnosod y bu in ni eu caniatau; a'n canllawiau ar wneud cais am apwyntiad mewnosod, y cyfan ar gael o'n llyfrgell ac ar ein gwefan.

5.38 Codau mynediad a phrisiau
£

Disgrifiad - Yr ydym wedi cynnwys prisiau mynediad enghreifftiol y cwmnïau ar ein gwefan am y tro cyntaf eleni. Y mae ein cynllun yn cynnwys ein canllawiau i gwmnïau ar y modd y dylasant ddatblygu eu codau mynediad er mwyn caniatau cludiant ar y cyd, hynny yw, sut y mae cwmnïau yn darparu mynediad i'w rhwydweithiau a'u isadeileddau i eraill. Gellir cael codau mynediad y cwmnïau oddi wrth y cwmnïau.

Caffaeladwyedd - Canllawiau codau mynediad, a phrisiau codau mynediad enghreifftiol.

5.39 Hunan-osod pibellau dŵr newydd

Disgrifiad - Ein canllawiau i gwmnïau ar yr egwyddorion y dylid eu gweithredu pan fo unigolion neu trydydd person yn dymuno gosod eu pibellau. Y mae cylch gorchwyl Grŵp Cynghori Hunan-osod Ofwat (OSLAG) hefyd ar gael, yn ogystal â rhaglenni a chofnodion y cyfarfodydd hyn.

Caffaeladwyedd - Canllawiau hunan-osod, cylch gorchwyl, cofnodion a rhaglenni OSLAG.

Taliadau a phrisiau

5.40 Polisi prisiau

Disgrifiad - Gwybodaeth cyhoeddedig ar ein polisi prisiau a sut y daethom i'n penderfyniadau. Gwybodaeth cyhoeddedig ar ddatblygiadau yn ein polisi prisiau.

Caffaeladwyedd - Llythyron RG a CD, adroddiadau 'Strwythur prisiau a thaliadau'.

5.41 Cymeradwyo cynlluniau prisiau cwmnïau

Disgrifiad - Ein ymarweddiad a'n amserlen ar gyfer cymeradwyo cynlluniau prisiau cwmnïau. Ein gwybodaeth cyhoeddedig ar sut y

gwnaethom y penderfyniadau hynny ynghyd ag unrhyw newidiadau yr ydym wedi eu mynnu yng nghynlluniau'r cwmnïau.

Caffaeladwyedd - Llythyron RG a CD, adroddiadau blynyddol 'Strwythur prisiau a thaliadau'.

5.42 Data prisiau a thaliadau

Disgrifiad - Manylion am y cyfan o'r wybodaeth cyhoeddedig ar brisiau a thaliadau'r cwmnïau a thaliadau cyfartaleddol y diwydiant ers ei breifateiddio.

Caffaeladwyedd – Adroddiadau 'Strwythur prisiau a thaliadau‘.

5.43 Cytundebau arbennig
£

Disgrifiad - Lleolir manylion cyhoeddedig cytundebau arbennig cyfredol di-enw yn ein llyfrgell. Lle y sefydlir cytundebau arbennig newydd, bwriadwn gyhoeddi manylion.

Caffaeladwyedd - Cofrestr cyntundebau arbennig o'r llyfrgell ac ar y wefan, wedi ei ddiweddaru pob chwe mis.

5.44 Ailwerthu dŵr

Disgrifiad - Ymgynghoriad a chanlyniadau ar Orchmynion cyfyngu ar daliadau am wasanaethau dŵr/carthffosiaeth a gyflenwir gan gwmnïau ac a ailwerthir gan bartïon eraill.

Caffaeladwyedd - Papurau ymgynghoriad a pholisi, a Gorchymyn Pris Ailwerthu.

Safonau perfformiad

5.45 Safonau gwasanaeth gwarantiedig (SGG)
£

Disgrifiad - Safonau gwasanaeth gwarantiedig cyfredol yn ogystal â newidiadau yr ydym wedi eu cynnig i safonau cyfredol. Cyhoeddwn fanylion ar wastad y diwydiant o daliadau a wneir gan y cwmnïau i'w cwsmeriaid yn unol â'r safonau gwasanaeth gwarantiedig a'u cynlluniau iawndal eu hunain yn ein adroddiadau gwastadau gwasanaeth blynyddol. Cynhwysir data'r cwmnïau yn eu hadroddiadau mis Mehefin.

Caffaeladwyedd - Rheoliadau'r Llywodraeth, ymgynghoriadau ar SGG, adroddiad blynyddol WaterVoice, 'Gwastadau gwasanaeth ar gyfer y diwydiant dŵr yn Lloegr a Chymru', CD-ROM adroddiad mis Mehefin.

5.46 Gwastadau gwasanaeth
£

Disgrifiad - Y gwastadau gwasanaeth y disgwylir i'r cwmnïau eu cyrraedd a perfformiadau blynyddol y cwmnïau wyneb-yn -wyneb â'r safonau hyn. Y mae data'r cwmnïau fel y'i cynhwysir yn eu adroddiadau mis Mehefin hefyd ar gael o'n llyfrgell. Ymgynghoriad a chanlyniad ar safonau gwasanaeth priodol.

Caffaeladwyedd - ‘Gwastadau gwasanaeth ar gyfer y diwydiant dŵr yn Lloegr a Chymru', data adroddiadau mis Mehefin, llythyrom RG a CD, papurau cyhoeddedig a CD-ROM adroddiadau mis Mehefin.

5.47 Asesiad perfformiad hollgynhwysfawr

Disgrifiad - Ein methodoleg ar gyfer cynhyrchu ein asesiad o berfformiad hollgynhwysfawr y cwmnïau. Y canllawiau ynghylch sut y byddwn yn ystyried perfformiad hollgynhwysfawr cwmnïau wrth osod cyfyngiadau prisiau cwmnïau. Canlyniadau ein asesiadau blynyddol.

Caffaeladwyedd - Papurau ymgynghoriad a polisi cyhoeddedig, papurau polici a phenderfyniadau ar gyfer adolygiadau prisiau a

'Gwastadau gwasanaeth ar gyfer y diwydiant dŵr yn Lloegr a Chymru'.

Cwynion

5.48 Ystadegau cwynion a'u trafod
£

Disgrifiad - Y dulliau gweithredu a ddefnyddiwn wrth drafod cwynion, ac ystadegau sydd yn cynnwys cwynion a dderbynwyd gan gwmnïau a'n perfformiad wrth drafod cwynion. Y dulliau o weithredu wrth drafod cwynion yn ein herbyn ni ein hunain.

Caffaeladwyedd -Adroddiad blynyddol Ofwat, sydd ar gael o Lyfrfa Ei Mawrhydi ac yn rhad ar ein gwefan. Taflenni gan gynnwys 'Dŵr a charthffosiaeth - sut y gallwn eich helpu os oes gennych gŵyn' a 'Dulliau gweithredu gyda chwynion Ofwat - sut y gallwn eich helpu os oes gennych gŵyn yn erbyn cwmni dŵr'.

5.49 Penderfyniadau
£

Y mae gennym rymoedd ffurfiol a ymddiriedir i'r Cyfarwyddwr i ddatrys anghydfodion penodedig.

Disgrifiad - Cyhoeddwn benderfyniadau ar
- gysylltu dŵr a charthffosiaeth;
- delerau ac amodau cyflenwadau nad ydynt yn y cartref;
- apeliadau mabwysiadu carthffosiaeth;
- osod pibellau ar dir preifat; ac
- apeliadau carthffrwd masnachol.

Caffaeladwyedd - Lleolir penderfyniadau yn ein llyfrgell.

5.50 Apeliadau carthffrwd masnachol
£

Disgrifiad - Ein llythyron penderfyniadau ffurfiol ar apeliadau carthffrwd masnachol.

Caffaeladwyedd - Gellir cael llythyron penderfyniadau apeliadau o'n llyfrgell.

5.51 Cwynion Deddf Cystadleuaeth 1998

£

Disgrifiad - Wrth ddefnyddio ei rymoedd cyfredol yn unol â Deddf Cystadleuaeth 1998, y mae'r Cyfarwyddwr yn cyhoeddi:

- cyngor a gwybodaeth gyffredinol am weithredu gwaharddiad Pennod 1 a'r gwaharddiad Pennod 11 o Deddf Cystadleuaeth 1998 a gorfodiad y gwaharddiadau hynny;
- penderfyniadau ynghylch a dorrwyd Deddf Cystadleuaeth 1998 ai peidio;
- mewn perthynas â phenderfyniadau troseddu, cyfarwyddiadau a fwriedir i roi terfyn ar y troseddu;
- cyfarwyddiadau mesurau dros dro;
- penderfyniadau i ganiatau eithrio o waharddiad Pennod 1 o'r Deddf Cystadleuaeth 1998 neu i ymestyn, newid neu dynnu ymaith eithriad cyfredol;
- penderfyniadau nad yw rhai eithriadau i'r Deddf Cystadleuaeth 1998 yn berthnasol i gytundebau neilltuol;
- penderfyniadau yn caniatau cais oddi wrth drydedd parti i ddiddymu neu amrywio penderfyniad cynharach;
- hysbysiadau am ymgynghoriadau cyhoeddus pan y bo'n cynnig gweithredu a bod gofyn iddo ymgynghori â'r cyhoedd ymlaen llaw neu ei fod yn dewis gwneud hynny; a
- crynodebau o natur ac amcanion cytundebau neu ymddygiad sydd yn destun ceisiadau am benderfyniad o dan adran 14 neu 22 o Ddeddf Cystadleuaeth 1998.

Gall fod peth gwybodaeth gyfrinachol wedi ei ddiddymu o'r copïau cyhoeddus o'r penderfyniadau, cyfarwyddiadau, hysbysebion a chrynodebau hyn.

Caffaeladwyedd - Y mae cyngor a gwybodaeth cyffredinol a gyhoeddwn ar weithrediad Deddf Cystadleuaeth 1998 ar gael ar ein gwefan ac mewn copi caled yn ein llyfrgell. Y mae hwn yn cynnwys: canllaw ar ei gweithredu yn y sectorau dŵr a charthffosiaeth; taflen ar sut i gwyno wrth Ofwat; nodyn gwybodaeth; adroddiadau blynyddol ar weithredu yn y sectorau dŵr a charthffosiaeth (cyhoeddwyd y cyntaf o'r rhai hyn eleni).

Y mae gofyn i'r Cyfarwyddwr gyhoeddi'r penderfyniadau, cyfarwyddiadau, hysbysebion a chrynodebau hyn drwy eu cofnodi ar gofrestr a gynhelir gan Gyfarwyddwr Cyfredinol Marchnata Teg (y gellir ei archwilio ar wefan y Swyddfa Marchnata Teg www.oft.gov.uk ac yn ei swyddfeydd rhwng 10.00am a 4.30pm bob diwrnod gwaith). Yn ogystal, bydd copïau parhaol ar gael o lyfrgell Ofwat.

Cyhoeddir cyngor a gwybodaeth pellach ar weithredu'r Ddeddf Cystadleuaeth 1998 gan y Swyddfa Marchnata Teg ac y mae ar gael ar ei gwefan neu ar y ffôn ar 0870 60 60 321. Ar ddyddiad cyhoeddi hwn, nid oedd y Cyfarwyddwr wedi gwneud na chyhoeddi unrhyw benderfyniadau, cyfarwyddiadau,hysbysebion na chrynodebau fel y disgrifwyd uchod.

Pynciau defnyddwyr

5.52 Canllawiau a chodau ymarfer

Disgrifiad - Ein canllawiau a chôd ymarfer i gwmnïau ar faterion sydd o bwys i gwsmeriaid gan gynnwys ymdrin â chwsmeriaid sydd mewn dyled, cwsmeriaid ag anghenion arbennig. Ein adolygiadau ar sut y mae cwmnïau yn gweithredu'r canllawiau hyn.

Caffaeladwyedd - Ymgynghoriadau a chanlyniadau cyhoeddedig ar ganllawiau. Adroddiadau cyhoeddedig ar bolisi ac ymarfer cwmni.

5.53 Ymchwil marchnad

£

Disgrifiad - Canlyniadau cyhoeddedig o'r cyfan o'r ymchwil marchnad a gyhaliwn.

Caffaeladwyedd - Canlyniadau ymchwil marchnad.

Rheoli'r hyn a wnawn

5.54 Adroddiadau a chyfrifon blynyddol

£

Disgrifiad - Y cyfan o adroddiadau blynyddol Ofwat, ein cyfrifon a'n cofrestr lletygarwch.

Caffaeladwyedd - Adroddiadau blynyddol, cyfrifon ariannol a chofrestr lletygarwch Ofwat - llyfrgell a gwefan Ofwat. Gellir cael copïau parhaol o'n adroddiad blynyddol o Lyfrfa Ei Mawrhydi.

5.55 Rhaglen y dyfodol

Disgrifiad - Rhaglenni yn dangos y gweithgareddau y bydd Ofwat yn eu gwneud yn y tair blynedd sydd i ddod.

Caffaeladwyedd - Rhaglenni'r dyfodol - dogfenni drafft a therfynol.

5.56 Strwythur rheolaeth

Disgrifiad - Manylion am y cyfan o staff Ofwat hyd gwastad arweinydd tîm a strwythur staffio. Bywgraffiadau o'r uwch dîm rheoli. Enwau a rhifau ffôn y staff yn gyfan. Manylion am Gyfarwyddwyr Ymgynghorol An-weithredol Ofwat.

Caffaeladwyedd - Gwefan, rhaglen y dyfodol, llyfr ffôn.

5.57 Swyddi gweigion

Disgrifiad - Dangosir y cyfan o'r swyddi gweigion i recriwtiaid allanol ar ein gwefan.

Caffaeladwyeddd - Gwefan.

5.58 Canllawiau staff

Disgrifiad - Canllaw mewnol i staff gan gynnwys ein llawlyfr yn cynnwys y cyfan o ddulliau gweithredu rheolaeth staff, ein canllawiau iechyd a diogelwch, a'n canllawiau ar lenwi swyddi gweigion. Y mae cofnodion cyfarfodydd ein Pwyllgor Swyddfa hefyd ar gael.

Caffaeladwyedd - O'n llyfrgell.

5.59 Ymatebiadau i ymgynghoriadau
£

Disgrifiad - Y mae y cyfan o ymatebiadau cyhoeddedig gan Ofwat i ymgynghoriadau allanol; ac ymatebiadau y mae ein hapddalwyr yn eu darparu i ni ar ymgynghoriadau yr ydym yn eu cynnal, nad ydynt yn cael eu darparu yn gyfrinachol, ar gael o'n llyfrgell.

Caffaeladwyedd - Gwefan ac o'n llyfrgell.

5.60 Caffaeliad
£

Disgrifiad - Y prif gytundebau caffaeliad a osodwyd. Enwau enillwyr y cytyndebau a gwerth y cytundebau.

Caffaeladwyedd - Adroddiad blynyddol ac o'n llyfrgell.

WaterVoice

Cwynion

5.61 Trafod cwynion

Disgrifiad - Y dulliau gweithredu y mae WaterVoice yn eu defnyddio ar gyfer trafod cwynion cwsmeriaid yn erbyn y cwmnïau dŵr.

Caffaeladwyedd - Taflen WaterVoice ‘Sut y gallwn helpu os oes gennych gŵyn'.

5.62 Cwynion a dderbynwyd am bob cwmni dŵr

Disgrifiad - Gwybodaeth ystadegol ar y nifer o gwynion cwsmeriaid cwmnïau dŵr a dderbynwyd gan WarerVoice.

Caffaeladwyedd - adroddiad blynyddol WaterVoice, papurau Pwyllgor WaterVoice, gwefan WaterVoice.

5.63 Nodau perfformiad trafod cwynion

Disgrifiad - Nodau perfformiad WaterVoice a'i berfformiad o'i cymharu â hwy ar gyfer trafod cwynion cwsmeriaid yn erbyn y cwmnïau dŵr.

Caffaeladwyedd - taflen WaterVoice ‘Sut y gallwn eich helpu os oes gennych gŵyn' ac adroddiad blynyddol WaterVoice.

5.64 Cwynion yn erbyn WaterVoice

Disgrifiad - Y dulliau gweithredu ar gyfer trafod cwynion yn ein herbyn ni ein hunain.

Caffaeladwyedd - taflen WaterVoice ‘Sut y gallwn eich helpu os oes gennych gŵyn' a thaflen 'Dulliau gweithredu cwynion Ofwat.'

Aelodaeth

5.65 Dull apwyntio

Disgrifiad - Polisi ac ymarfer ar gyfer ricriwtio ac apwyntio aelodau.

Caffaeladwyedd - Dogfen dull gweithredu 'Dull gweithredu ar gyfer apwyntiad Cadeiryddion ac Aelodau Pwyllgorau Rhanbarthol WaterVoice' ar wefan WaterVoice, Pecyn Gwybodaeth 'Cais am Aelodaeth' a thaflen WaterVoice 'Rhan i chi ei chwarae gyda WaterVoice' a Llawlyfr Aelodau WaterVoice.

5.66 Ystadegau aelodaeth
£

Disgrifiad - Ystadegau aelodaeth gan gynnwys niferoedd a dadansoddiad aelodau yn ôl oedran, rhyw a grwpiau lleiafrifoedd ethnic.

Caffaeladwyedd - adroddiad blynyddol Ofwat, copïau parhaol ar gael o Lyfrfa Ei Mawrhydi neu ar ein gwefan.

5.67 Manylion am aelodau

Disgrifiad - aelodaeth y pwyllgorau - enwau Cadeiryddion ac Aelodau a gwybodaeth bywgraffiadol a dyddiad eu penodiad cyntaf.

Caffaeladwyedd - adroddiad blynyddol a gwefan WaterVoice.

5.68 Cyfarfodydd y Cyngor

Disgrifiad - Cofnodion cyfarfodydd y Cyngor.

Caffaeladwyedd - Gwefan WaterVoice.

5.69 Cyfarfodydd y Pwyllgorau

Disgrifiad - Rhaglenni, papurau a chofnodion o gyfarfodydd cyhoeddus.

Caffaeladwyedd - Gwefan WaterVoice neu o'r swyddfa WaterVoice perthnasol. Cynhwysir y manylion cyswllt yn atodiad 1 Pwyllgorau WaterVoice.

Polisi defnyddwyr a gwybodaeth

5.70 Polisi defnyddwyr a gwybodaeth

Disgrifiad - Ymatebion WaterVoice i ymgynghoriadau Ofwat a'r Llywodraeth, nodiadau briffio, (er enghraifft, ar Gyfarwyddebau yr UE a mesurau Seneddol) papurau safle polisi e.e. ar gystadleuaeth, gwybodaeth cyffredinol ar ymarfer cwmnïau dŵr, canllawiau i gwsmeriaid busnes.

Caffaeladwyedd - Ymatebion ymgynghoriadau, nodiadau briffio, papurau polisi, Cofrestri Ymarfer Gorau ar y wefan ac mewn taflenni.

Perthynas gydag Ofwat

5.71 Memorandwm o gyd-ddealltwriaeth

Disgrifiad - Memorandwm o gyd-ddealltwriaeth rhwng Ofwat a WaterVoice ar y ffordd y cydweithiwn.

Caffaeladwyedd - Memorandwm o gyd-ddealltwriaeth.

Adran 6 – Cysylltiadau

Â phwy y dylwn gysylltu os oes ymholiad gennyf ynghylch cynllun cyhoeddi Ofwat?

29. Ar Roger Dunshea, Cyfarwyddwr Gweithgareddau y disgyn y cyfrifoldeb am ein Cynllun Cyhoeddi yn y pen draw. Ingrid Olsen, Rheolydd Seneddol a Chyhoeddiadau sydd yn gyfrifol am gynnal ac adolygu ein cynllun.

30. Y mae eich ymholiadau yn ein cynorthwyo ni i ganfod beth sydd yn eisiau yn ein cynllun cyhoeddi. Byddem hefyd yn hoffi cael eich barn am y cynllun a beth gallwn ei wneud i'w wella. Byddem yn hoffi i chi ddanfon eich sylwadau ar yr e-bost neu drwy'r post at:

    Ingrid Olsen
    Office of Water Services
    Centre City Tower
    7 Hill Street
    Birmingham
    B5 4UA

    Ebost: FOI@ofwat.gsi.gov.uk

31. Crybwyllir nifer o gyrff eraill yn y cynllun cyhoeddi hwn a chynhwysir eu manylion cyswllt isod.

Defra
Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig,
3-8 Whitehall Place
Llundain SW1A 2HH

Ebost helpline@defra.gsi.gov.uk
Gwefan www.defra.gov.uk

Manylion Y Comisiynydd Gwybodaeth
Y Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF

Ffôn 01625 545 745
Ffacs 01625 524 510

Ebost data@dataprotection.gov.uk
Gwefan www.dataprotection.gov.uk

ADY
Arolygaeth Dŵr Yfed
Floor 2/A1
Ashdown House
123 Victoria Street
Llundain SW1E 6DE

Ffôn 020 7944 5956
Ffacs 020 7944 5969
Ebost dwi.enquiries@defra.gsi.gov.uk
Gwefan www.dwi.gov.uk

Adran Yr Arglwydd Ganghellor
Adran Yr arglwydd Ganghellor

Selborne House
54-60 Victoria Street
Llundain SW1E 6QW

Ffôn 020 7210 8500
Ebost general.enquiries@lcdhq.gsi.gov.uk
Gwefan www.lcd.gov.uk

Asiantaeth Yr Amgylchedd
Asiantaeth Yr Amgylchedd
Rio House
Waterside Drive
Aztec West
Almondsbury
Briste BS32 4UD

Ffôn 01454 624400
Ffacs 01454 624409
Ebost enquiries@environment-agency.gov.uk
Gwefan www.environment-agency.gov.uk

SMT
Swyddfa Marchnata Teg
Fleetbank House
2-6 Salisbury Square
Llundain EC4Y 8JX

Ffôn 020 7211 8000
Ffacs 020 7211 8800
Ebost enquiries@oft.gov.uk
Gwefan www.oft.gov.uk

Llyfrfa Ei Mawrhydi
Llyfrfa Ei Mawrhydi
P O Box 29

Norwich NR3 1GN

Ffôn 0870 600 5522
Ebost customer.services@theso.co.uk
Gwefan www.tso.co.uk/bookshop/bookstore.asp

Atodiad 1 Swyddfeydd WaterVoice

Mae galwadau i rifau Lo-call ar gyfraddau tâl lleol.

WaterVoice Canolog
First Floor, Chanelle House, 86 New Street, Birmingham,
B2 4BA

Ffôn: 0121 644 5252
(Lo-call: 08457 023953)
Ffacs: 0121 644 5256
Ebost: central@watervoice.org.uk
Oriau swyddfa: 8.30am – 16.30 Llun-Gwener

Yn gyfrifol am gwsmeriaid: **Severn Trent Water, South Staffordshire Water**

WaterVoice De Orllewin
First Floor, Broadwalk House, Southernhay West, Exeter,
EX1 1TS

Ffôn: 01392 428028
(Lo-call: 08457 959059)
Ffacs: 01392 428010
Ebost: southwest@watervoice.org.uk
Oriau swyddfa: 8.30 – 16.30 Llun-Gwener

Yn gyfrifol am gwsmeriaid: **South West Water**

WaterVoice Dwyrain
Ground Floor, Carlyle House,Carlyle Road, Cambridge, CB4 3DN

Ffôn: 01223 323889
(Lo-call: 08457 959369)
Ffacs: 01223 323930
Ebost eastern@watervoice.org.uk

Oriau Swyddfa 8.30 – 16.30 Llun-Gwener

Yn gyfrifol am gwsmeriaid: **Anglian Water Cambridge Water, Essex and Suffolk Water, Tendring Hundred Water**

WaterVoice Tafwys
Fourth Floor (Sth), High Holborn House, 52/54 High Holborn, Llundain WC1V 6RL

Ffôn: 020 7831 4790
(Lo-call: 08457 581658)
Ffacs: 020 7831 4850
Ebost: thames@watervoice.org.uk

Oriau Swyddfa: 9.00 – 17.00 Llun-Gwener

Yn gyfrifol am gwsmeriaid: **Thames Water, Three Valleys Water, Sutton and East Surrey Water**

WaterVoice Northumbria
Eighth Floor, Northgate House, ST Augustine's Way, Darlington, DL1 1XA

Ffôn: 01325 464222
(Lo-call: 08457 089367)
Ffacs: 01325 369269
Ebost northumbria@watervoice.org.uk

Oriau Swyddfa: 9.00 – 17.00 Llun-Gwener

Yn gyfrifol am gwsmeriaid: **Northumbrian Water, Hartlepool Water**

WaterVoice Cymru
Ystafell 140, Tŷ Caradog, 1-6 Maes St Andreas, Caerdydd, CF10 3BE

Ffôn: 029 2023 9852
(Lo-call: 08457 078267)
Ffacs: 029 2023 9847
Ebost wales@watervoice.org.uk

Oriau Swyddfa: 8.30 – 16.30 Llun-Gwener

Yn gyfrifol am gwsmeriaid: **Dŵr Cymru Cyfyngedig, Dŵr Dyffryn Dyfrdwy**

WaterVoice Gogledd Orllewin
Suite 902, 9th Floor, Bridgewater House, Whitworth Street, Manchester, M1 6LT

Ffôn: 0161 236 6112
(Lo-call: 08457 056316)
Ffacs: 0161 228 6117
Ebost northwest@watervoice.org.uk

Oriau Swyddfa: 9.00 – 17.00 Llun Gwener

Yn gyfrifol am gwsmeriaid: **United Utilities Water**

WaterVoice Wessex
2 The Hide Market, West Street,
St Philips, Bristol, BS2 0BH

Ffôn: 0117 955 7001
(Lo-call: 08457 078268)
Ffacs: 0117 955 7037

Ebost: wessex@watervoice.org.uk

Oriau Swyddfa: 8.30 – 16.30 Llun-Gwener

Yn gyfrifol am gwsmeriaid: **Wessex Water Services, Bournemouth and West Hampshire Water, Bristol Water, Cholderton & District Water**

WaterVoice Deheuol
Fourth Floor (Sth), High Holborn House, 52/54 High Holborn, London WC1V 6RL

Ffôn: 020 7831 4790
(Lo-call: 08457 581658)
Ffacs: 020 7831 7253
Ebost: southern@watervoice.org.uk

Oriau Swyddfa: 9.00 – 17.00 Llun-Gwener

Yn gyfrifol am gwsmeriaid: **Southern Water Services, Folkestone & Dover Water Services, Portsmouth Water, Mid Kent Water, South East Water**

WaterVoice Swydd Efrog
Eighth Floor, Northgate House, St Augustine's Way, Darlington, DL1 1XA

Ffôn: 01325 469777
(Lo-call: 08457 089368)
Ffacs: 01325 369269
Ebost: yorkshire@watervoice.org.uk

Oriau Swyddfa: 9.00 – 17.00 Llun-Gwener

Yn gyfrifol am gwsmeriaid: **Yorkshire Water**

Atodiad 2 Ein prisiau

Llythyron Annwyl RG/CR

32. Copïau o lythyron yw y rhai hyn a anfonwyd at Reolwyr Gyfarwyddwyr, Cyfarwyddwyr Rheoleiddio o'r cyfan o'r cwmnïau dŵr apwyntiedig. Gellir cael rhestr o'r holl lythyron a anfonwyd ers mis Ast 1989 oddi wrth y Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth ac y mae hefyd ar ein gwefan http://www.ofwat.gov.uk; y mae testun llawn o lythyron MD129 (Mai1997) ymlaen ac RD17/99 (Awst 1999) ymlaen.
Copïau unigol ar gael yn rhad ac am ddim.
Tanysgrifiad (gan gynnwys hysbysebion i'r wasg Ofwat a phob prif gyhoeddiad) Ebrill 2002 - Mawrth 2003 **£215**

Hysbysebion i'r wasg

33. Y mae hysbysebion i'r wasg Ofwat ar gael ar y rhyngrwyd:
Hysbysebion y wasg Ofwat 1998 ymlaen
http://213.38.88.195/coi/coipress. nsf/gws
Datganiadau i'r wasg Pwyllgorau WaterVoice 1998 ymlaen
http://213.38.88.195/coi/ coipress.nsf/gcu
Datganiadau i'r wasg Cyngor WaterVoice 1998 ymlaen
http://213.38.88.195/coi/ coipress.nsf/gon

Yr ydym hefyd yn cynnig tanysgrifiad gwasanaeth anfon trwy'r post (**£85 - £150pa**); os oes gennych ddiddordeb, byddwch gystal â ffonio 0121 625 1431 am fanylion llawn.

Areithiau

34. Y mae areithiau a datganiadau a wneir gan Gyfarwyddwr Cyffredinol y Gwasanaethau Dŵr, Philip Fletcher, ar gael yn rhad ac am ddim. Gellir cael rhestr o'r areithiau hyn drwy wneud cais at y Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth ac y mae hefyd ar

ein gwefan; y mae testunau llawn y rhan fwyaf o'r areithiau ar y wefan.

Cofrestr y Cyfarwyddwr

35. Y mae hwn yn cynnwys trwyddedau cwmnïau dŵr, ymrwymiadau a phenderfyniadau. Gellir prynu detholion am **10c y tudalen; isafswm tâl £1.00**

Taliadau am luncopïo

36. Cylwyniadau cwmnïau dŵr, ymatebion i bapurai ymgynhori Ofwat, a materion eraill a wnaethpwyd yn gyhoeddus **10c y tudalen;isafswm tâl £2.00**.
Llungopïau o unrhyw ddogfennau eraill nad ydynt yn rhai Ofwat (gan gynnwys cyfrifon rheolyddol cwmnïau dŵr) **25c y tudalen; isafswm tâl £5.00.**

Atodiad 3 Rhestr lawn o ddosbarthiadau o wybodaeth

Ofwat

Rheoleiddio'r cwmnïau

5.1 Ein dyletswyddau
5.2 Hysbysiadau i'r wasg
5.3 Nodiadau gwybodaeth
5.4 Adroddiadau perfformiad blynyddol
5.5 Llythyron RG a CR
5.6 Cofrestr y Cyfarwyddwr
5.7 Effeithiolrwydd
5.8 Meincnodi
5.9 Gollyngiadau
5.10 Dŵr yfed
5.11 Yr Amgylchedd
5.12 Cynnal asedau'r cwmnïau
5.13 Costau sylfaen
5.14 Costau ymylol tymor hir
5.15 Rheolaeth galw a chyflenwad
5.16 Defnydd effeithiol o Ddŵr

Gwybodaeth ariannol

5.17 Model ariannol
5.18 Strwythurau corfforiaethol cwmnïau
5.19 Cyfrifon Rheoleiddiol
5.20 Gwarediadau tir
5.21 Gwariant gweithredu a chyfalafol
5.22 Prisio trosglwyddiadau
5.23 Datganiadau i'r Ddinas
5.24 Gwerthoedd Cyfalafol Rheoleiddiol
5.25 Cost cyfalaf

Gosod prisiau

5.26 Ymchwil cwsmeriaid
5.27 Polisi a phroses adolygu cyfnodol

5.28 Penderfyniadau
5.29 Cyflwyniadau cwmnïau
5.30 Penderfyniadau cyfamser
5.31 Cyfeirnodau y Comisiwn Cystadleuaeth

Monitro perfformiad cwmnïau
5.32 Adroddwyr
5.33 Archwilwyr
5.34 Ein gofynion adrodd

Cystadleuaeth
5.35 Polisi cystadleuaeth
5.36 Cyflenwadau swmp
5.37 Apwyntiadau mewnosod
5.38 Codau mynediad a phrisiau
5.39 Hunan-osod pibellau dŵr newydd

Prisiau a thaliadau
5.40 Polisi prisiau
5.41 Cymeradwyo cynlluniau prisiau cwmnïau
5.42 Data prisiau a thaliadau
5.43 Cytundebau arbennig
5.44 Ailwerthu dŵr

Safonau perfformiad
5.45 Safonau gwasanaeth gwarantiedig
5.46 Gwastadau gwasanaeth
5.47 Asesiad perfformiad hollgynhwysfawr

Cwynion
5.48 Ystadegau cwynion a'u trafod
5.49 Penderfyniadau
5.50 Apeliadau carthffrwd masnachol
5.51 Cwynion Deddf Cystadleuaeth1998

Pynciau defnyddwyr
5.52 Canllawiau a chodau ymarfer
5.53 Ymchwil marchnad

Rheoli'r hyn a wnawn
5.54 Adroddiadau blynyddol a chyfrifon
5.55 Rhaglen y dyfodol
5.56 Strwythur Rheolaeth
5.57 Swyddi gweigion
5.58 Canllawiau staff
5.59 Ymatebiadau i ymgynghoriadau
5.60 Caffaeliad

WaterVoice

Cwynion
5.61 Trafod cwynion
5.62 Cwynion a dderbynwyd gan bob cwmni dŵr
5.63 Nodau perfformiad trafod cwynion
5.64 Cwynion yn erbyn WaterVoice

Aelodaeth
5.65 Dull apwyntio
5.66 Ystadegau aelodaeth
5.67 Manylion am aelodau
5.68 Cyfarfodydd y Cyngor
5.69 Cyfarfodydd y Pwyllgorau

Polisi defnyddwyr a gwybodaeth
5.70 Polisi defnyddwyr a gwybodaeth

Perthynas gydag Ofwat
5.71 Memorandwm o Gyd-ddealltwriaeth